CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
6 Ionawr 2021, Trwy Fideo 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, L Roberts, D Gwyn, A Mummery, O Evans, M Jones (Cyngor Sir), R Williams (Cyngor Sir) A. Le Cras (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng S Hughes.	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
1.1	Croesawyd Anwen Le Cras sydd am weithredu fel Clerc dros dro.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 02.12.2020. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng N. Jones yn cynnig a Cyng L Roberts yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Diffibriliwr** – Adroddwyd fod y diffibriliwr wedi'i osod ar safle Peninsula Windows, Star. Bu'r Cadeirydd a Chyngorydd A. Mummery draw yno i'w gyflwyno'n swyddogol gyda Tomos Hughes, Gwasnaeth Ambiwlans a Dylan Hulse o Peninsula Windows.
4.2	**Twll ger y lôn rhwng Eglwys Penmynydd a'r Groeslon** – Mae'r cyn Glerc wedi adrodd at y Cyngor Sir. Dim gwybodaeth pellach i law.
4.3	**Elusendai Penmynydd** - Dim gwybodaeth pellach ers y cyfarfod diwethaf.
4.4	**Coed yn tyfu ar ochr y lôn yn Star -** Gor dyfiant ar hyd y lôn tuag at Garnedd Ddu. **Y Clerc i adrodd at Cyngor Sir Ynys Môn.**
4.5	**Pentre Coed -** Llythyr wedi'i yrru i Cyngor Sir Ynys Môn gyda chopi at Llywodraeth Cymru. Nodwyd mai yn ardal Porthaethwy mae'r cynllun. Yr unig gyswllt â Penmynydd yw ei fod yn rhannu ffin gyda tir Castellior sydd o fewn cymuned Penmynydd. Nodwyd hefyd bod y cais cynllunio wedi'i ganiatau ers 2006. **I'w adael ar yr agenda erbyn mis Chwefror**
	Llofnod **Cadeirydd 03.02.2021**

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	**Pentre Coed** – gweler 4.5
5.2	**Cais Cynllunio FPL/2020/267 Tyn Mynydd -** Cais am adnewyddu ty gwag a newid dau adeilad amaethyddol i dai gwyliau. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad l'r cais ond derbyniwyd sylwadau ynghlyn a'r groesffordd. Nodwyd y byddai mwy o ddefnydd o'r groesffordd yn creu potensial am ddamweiniau. **Y Clerc i roi sylwadau ymlaen am y groesffordd yn unig. Cynghorydd A. Mummery i'w alw mewn i'r Pwyllgor Cynllunio.**
	Adnoddau
5.3	**Praesept 2021/2022 -** l'w drafod yng nghyfarfod mis Chwefror.
5.4	**Gwefan Cyngor Penmynydd a Star (Penmynydd.org).** Y Saesneg wedi'i gywiro. Pawb i edrych arno ac ychwanegu gwybodaeth.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Ymddiswyddiad y Clerc -** G. Owen wedi ymddiswyddo oherwydd pwysau gwaith. Y gwaith papur a'r adnoddau wedi'u trosglwyddo i'r Cadeirydd. Angen trefnu trosglwyddo'r holl adnoddau i A. Le Cras.
6.2	**Adroddiad ac argymhelliad y Panel ar gyflog Clerc Cyngor Penmynydd -** Argymhellwyd gosod cyflog y Clerc ar bwynt 17 o'r graddfa cyflog SLC. I godi'n flynyddol yn ôl y graddfeydd. **Cytunwyd yn unfrydol.**
7	**MATERION ARIANNOL** Cytunwyd i dalu:
7.1	Parry a Hughes Trydanwyr £125.90
8	**MATERION ERAILL**
8.1	**Ysbwriel ym maes parcio y Ganolfan, Penmynydd -** Y Cadeirydd wedi danfon llythyr yn rhoi pythefnos i berchennog y sbwriel ei waredu. Hefyd wedi sylwi bod logiau wedi'u cadw yn y Ganolfan. Wedi'i rhybuddio i symud rhain hefyd ar frys fel mater iechyd a diogelwch**.**
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Cyllideb 2021/2022
9.2	Pibell ddŵr.
	Llofnod Cadeirydd 03.02.21